Arolygiaeth Gofal Cymru
Care Inspectorate Wales

# Adroddiad Arolygu Gofal Plant ar gyfer

**Cylch Meithrin Mwy Blaendulais**

**Ysgol Gynradd Gymraeg Blaendulais**
**Penybanc**
**Blaendulais**
**Castell-nedd**
**SA10 9AA**

**This report is also available in English**

**Mae'r adroddiad hwn hefyd ar gael yn Saesneg**



## Dyddiad Cyhoeddi

**18 Chwefror 2019**

***Llywodraeth Cymru © Hawlfraint y Goron 2019.***
*Cewch ddefnyddio ac ailddefnyddio'r wybodaeth sydd yn y cyhoeddiad hwn (ac eithrio logos) yn ddi-dâl, mewn unrhyw fformat neu gyfrwng, o dan delerau'r Drwydded Llywodraeth Agored. Gallwch weld y Drwydded Llywodraeth Agored ar wefan yr Archifau Gwladol, neu gallwch ysgrifennu at The Information Policy Team, The National Archives, Kew, London, TW9 4DU, neu anfon e-bost at: psi@nationalarchives.gsi.gov.uk*
*Rhaid i chi atgynhyrchu ein deunydd yn fanwl gywir a pheidio â'i ddefnyddio mewn cyd-destun camarweiniol.*

## Disgrifiad o'r gwasanaeth

Cafodd Cylch Meithrin Mwy Blaendulais ei gofrestru ar 1 Ebrill 2002. Mae'r Cylch yn darparu gofal sesiynol ar gyfer uchafswm o 12 o blant, 2-4 oed. Y person cofrestredig yw Ann Price a'r personau â chyfrifoldeb yw Stacey Harris a Heather Best. Cynhelir y Cylch mewn caban ar dir Ysgol Gynradd Gymraeg Blaendulais. Mae'r gwasanaeth ar agor rhwng 11.50am a 3.10pm o ddydd Llun i ddydd Gwener yn ystod y tymor. Darperir y gofal yn ddwyieithog.

## Crynodeb o'n canfyddiadau

### 1. Asesiad cyffredinol

Mae'r plant yn egnïol, yn hapus ar y cyfan ac yn ymgysylltu â'u chwarae yn y Cylch hwn. Maent yn mwynhau eu gweithgareddau, fel peintio, chwarae rôl a chwarae rhydd. Mae'r staff yn ofalgar ac yn cydweithio'n dda. Mae'r arweinwyr wedi gwneud cynnydd o ran rheoli ac arwain, ond mae rhai achosion o ddiffyg cydymffurfio o hyd.

### 2. Gwelliannau

Ers yr arolygiad diwethaf, mae'r arweinwyr wedi cynnal a chofnodi arfarniad blynyddol, a rhoddwyd gwybod i ni hefyd eu bod wedi trefnu cyfarfodydd goruchwylio yn y dyfodol.
Yn ystod y broses arolygu, cadarnhaodd y person cofrestredig fod ffeiliau'r staff yn gyflawn.

### 3. Gofynion ac argymhellion

Rhoddwyd gwybod i'r arweinwyr bod angen gwneud gwelliannau mewn perthynas â'r datganiad o ddiben (rheoliad 15) a'r adroddiad a'r adolygiad o ansawdd y gofal (rheoliad 16) er mwyn bodloni'r gofynion cyfreithiol yn llawn. Nid ydym wedi cyflwyno hysbysiadau diffyg cydymffurfio y tro hwn gan nad oedd effaith sylweddol na risg sylweddol i'r plant mewn perthynas â'r rheoliadau hyn. Rydym yn disgwyl i'r person cofrestredig gymryd camau i unioni hyn ac edrychir ar y mater eto yn yr arolygiad nesaf.

Gwnaethom hefyd argymhellion ac mae'r rhain wedi'u rhestru ar ddiwedd yr adroddiad.

# 1. Llesiant

## Crynodeb

Nid oedd yr arolygiad yn canolbwyntio ar lesiant y tro hwn. Canolbwyntiwyd ar feysydd gofal a datblygiad, yr amgylchedd ac arwain a rheoli. Gwnaethom gynnal arolygiad llawn ar 28 Mehefin 2018.

Fodd bynnag, gwelsom y plant yn cael digon o ddewis gan un aelod o'r staff yn ystod yr arolygiad. Roedd y plant yn hapus ac yn mwynhau eu chwarae, er enghraifft, roeddent wrth eu bodd yn chwarae â threnau ac anifeiliaid fferm. Roedd dau blentyn yn mwynhau eu hunain yn ardal y caffi wrth iddynt ddychmygu eu bod mewn caffi go iawn. Cafodd y plant ddiwrnod prysur, a oedd yn cynnwys chwarae yn yr awyr agored, gwaith crefft, a sesiynau darllen a chanu.

Caiff y maes hwn ei ystyried yn llawn mewn arolygiadau yn y dyfodol.

## 2. Gofal a Datblygiad

### Crynodeb

Mae'r staff wedi rhoi mesurau ar waith i hybu iechyd a diogelwch y plant. Mae'r staff yn adnabod y plant yn dda iawn ac roedd hwn yn amlwg yn ystod ein hymweliad.

### Ein canfyddiadau

### 2.1 Pa mor dda y mae ymarferwyr yn cadw plant yn ddiogel ac yn iach?

Mae'r staff wedi gosod mesurau ar waith i sicrhau bod y plant yn ddiogel a'u bod yn ymwybodol o risgiau.

Roedd y staff wedi cynnal ymarfer tân ym mis Gorffennaf 2018 a gosodwyd synhwyrydd mwg ers yr arolygiad diwethaf. Roedd pob aelod o'r staff yn meddu ar dystysgrif cymorth cyntaf dilys. Roedd y staff wedi cofrestru'r plant yn brydlon, ac roedd y gofrestr yn cynnwys enwau'r plant a'r staff, a gafodd ei chwblhau mewn inc. Roedd y staff yn annog y rhieni i ddarparu pecynnau bwyd iachus, ac roedd y rheiny'n cynnwys bara brown a ffrwythau. Mewn achosion lle roedd gan y plant siocled a chreision, roedd y staff yn eu hannog yn effeithiol i fwyta eu brechdanau a'u ffrwythau gyntaf. Sychodd y staff y bwrdd cyn ac ar ôl i'r plant eistedd i fwyta eu bwyd. Mae'r gwasanaeth yn rhedeg o gaban cludadwy ar dir ysgol gynradd. Er bod y staff bob amser yn goruchwylio'r plant dan do ac yn yr awyr agored, a bod system fynediad i'r caban yn ddiogel a bod y staff bob amser yn sicrhau bod y drws ar glo yn ddiogel, nid yw'r system mynediad ehangach cystal. Fodd bynnag, roedd y staff yn effeithiol yn cyfleu negeseuon diogelwch i'r plant wrth iddynt chwarae yn yr awyr agored. Roedd yr arweinwyr yn cael trafferth yn ceisio dod o hyd i gwrs diogelu plant a oedd yn addas i'r staff. Dywedwyd wrthym eu bod wedi cytuno â phennaeth yr ysgol y byddent yn mynd i sesiwn hyfforddi'r ysgol ar ddiogelu plant ym mis Medi 2019, ond y byddent yn sicrhau bod y staff yn cwblhau cwrs ar-lein yn y cyfamser. Trafodwyd hyn gyda'r staff hefyd yn ystod arfarniad blynyddol ym mis Medi 2018, a chofnodwyd hyn ar y ffurflenni.

At ei gilydd, mae'r staff yn cadw'r plant yn ddiogel ac yn iach.

### 2.2 Pa mor dda y mae ymarferwyr yn rheoli'r rhyngweithio?

Nid oedd yr arolygiad hwn yn canolbwyntio ar ryngweithio'r staff y tro hwn, gan ein bod wedi cwblhau arolygiad llawn ar 28 Mehefin 2018.

Caiff y maes hwn ei ystyried yn llawn mewn arolygiadau yn y dyfodol.

### 2.3 Pa mor dda y mae ymarferwyr yn hybu chwarae, dysgu a datblygiad plant, ac yn diwallu eu hanghenion unigol?

Nid oedd yr arolygiad hwn yn canolbwyntio ar hyrwyddo chwarae, dysgu a datblygiad y plant y tro hwn, gan ein bod wedi cwblhau arolygiad llawn ar 28 Mehefin 2018.

Caiff y maes hwn ei ystyried yn llawn mewn arolygiadau yn y dyfodol.

## 3. Yr Amgylchedd

**Crynodeb**

Mae'r arweinwyr a'r staff wedi gosod mesurau ar waith i wella diogelwch yr amgylchedd. Maent wedi rhoi o'u hamnser eu hunain i i baentio'r pyst haearn. Mae'r staff wedi tacluso'r cwpwrdd ffeilio ac maent wedi cael gwared ar eitemau y tybir eu bod yn beryglus.

**Ein canfyddiadau**

### 3.1 Pa mor dda y mae arweinwyr yn sicrhau bod yr amgylchedd yn ddiogel?

Mae'r person cofrestredig a'r staff wedi cymryd camau gweithredu i wella'r amgylchedd, er diogelwch.

Mae'r staff wedi neilltuo amser i beintio pyst haearn y gysgodfa er mwyn amlygu eu lleoliad ac i leihau'r risgiau i'r plant. Yn ogystal, mae'r staff wedi tacluso'r cwpwrdd ffeilio, ac o ganlyniad, roedd y gwaith papur yn ymwneud ag arwain a rheoli yn llawer mwy trefnus. Symudwyd y diffoddwr tân a oedd yn sefyll ar y llawr y tu mewn i ddrws y fynedfa, ac roedd yr arweinwyr wedi sicrhau bod synhwyrydd mwg wedi'i osod yn yr ystafell.

Mae'r arweinwyr wedi cymryd camau i wella diogelwch yr amgylchedd, ac o ganlyniad, mae'n ddigon diogel.

### 3.2 Pa mor dda y mae arweinwyr yn sicrhau bod yr amgylchedd yn addas?

Nid oedd yr arolygiad hwn yn canolbwyntio ar addasrwydd yr amgylchedd y tro hwn, gan ein bod wedi cwblhau arolygiad llawn ar 28 Mehefin 2018.

Caiff y maes hwn ei ystyried yn llawn mewn arolygiadau yn y dyfodol.

### 3.3 Pa mor dda y mae arweinwyr yn sicrhau ansawdd yr adnoddau a'r cyfarpar?

Nid oedd yr arolygiad hwn yn canolbwyntio ar ansawdd yr adnoddau y tro hwn, gan ein bod wedi cwblhau arolygiad llawn ar 28 Mehefin 2018.

Caiff y maes hwn ei ystyried yn llawn mewn arolygiadau yn y dyfodol.

## 4. Arwain a Rheoli

**Crynodeb**

Mae'r arweinwyr wedi datblygu systemau a gwiriadau i sicrhau bod y gwasanaeth yn gallu gweithredu'n ddiogel o ddydd i ddydd. Fodd bynnag, mae angen mwy o drefn mewn rhai meysydd. Mae'r gwasanaeth yn cydymffurfio â'r rheoliadau ar y cyfan ac yn cwrdd â'r rhan fwyaf o'r safonau gofynnol cenedlaethol.

**Ein canfyddiadau**

### 4.1 Pa mor effeithiol yw'r arweinyddiaeth?

Mae'r arweinwyr wedi gwneud rhai gwelliannau o ran ffeiliau'r staff, ac maent wedi rhoi systemau ar waith i sicrhau mwy o drefn.

Roedd datganiad o ddiben ar waith ond nid oedd yn cynnwys yr holl wybodaeth sydd ei hangen yn ôl y ddeddfwriaeth. Roedd yr arweinwyr wedi rhoi trefn ar y cwpwrdd ffeilio, ac roeddent wedi cyrchu dogfennau a oedd ar goll o ffeiliau'r staff yn ystod yr arolygiad blaenorol. Fodd bynnag, ar ddiwrnod yr arolygiad roedd bylchau yn y ddwy ffeil o hyd. Yn ystod y broses arolygu, cawsom gadarnhad ysgrifenedig gan y person cofrestredig fod y ffeiliau wedi'u diweddaru a'u bod yn cynnwys yr holl ddogfennau yr oedd eu hangen yn ôl y ddeddfwriaeth. Yn ddiweddar, roedd yr arweinwyr wedi rhoi gwybod i AGC am ddigwyddiadau, fel sy'n ofynnol yn ôl y ddeddfwriaeth. Roedd y dystysgrif gyfredol wedi'i harddangos.

Mae'r arweinwyr wedi gwneud gwelliannau.

### 4.2 Pa mor effeithiol yw'r gwaith o hunanwerthuso a chynllunio ar gyfer gwella?

Mae'r person cofrestredig yn cyfarfod â'r staff yn eithaf rheolaidd i gynllunio ar gyfer gwella, ond mae angen gwell strwythur i'r adolygiad o ansawdd y gofal.

Yn ystod yr arolygiad diwethaf, gwnaethom argymell y dylai'r gwasanaeth anfon copi o adroddiad o Ansawdd y Gofal a sicrhau bod y rhieni'n cael cyfle i roi adborth. Dywedwyd wrthym bod y rhieni wedi cael holiaduron erbyn hyn. Roedd y gwasanaeth hefyd wedi bod yn cydweithio â'r swyddog datblygu lleol ar gyfer sefydliad gofal plant, er mwyn ysgogi gwelliant.

Mae'r broses hunanwerthuso a chynllunio ar gyfer gwelliant yn cael ei ddatblygu.

### 4.3 Pa mor effeithiol y mae ymarferwyr, staff ac adnoddau eraill yn cael eu rheoli?

Mae'r arweinwyr wedi cynnal arfarniad blynyddol gyda'r staff.

Cynhaliwyd arfarniadau'r staff gan y person cofrestredig ym mis Medi 2018, a threfnwyd cyfarfodydd goruchwylio ar gyfer mis Rhagfyr 2018. Roedd yr arweinwyr a'r staff hefyd yn cynnal cyfarfodydd ad hoc yn anffurfiol er mwyn trefnu gweithgareddau, codi arian a thrafod materion cyffredin. Roedd yr arweinwyr wedi sicrhau bod gwiriadau addasrwydd y staff ar waith.

Mae'r staff yn cael eu rheoli'n ddigonol.

### 4.4 Pa mor effeithiol yw partneriaethau?

Nid oedd yr arolygiad hwn yn canolbwyntio ar bartneriaethau y tro hwn, gan ein bod wedi cwblhau arolygiad llawn ar 28 Mehefin 2018.

Caiff y maes hwn ei ystyried yn llawn mewn arolygiadau yn y dyfodol.

## 5. Gwelliannau sydd eu hangen ac a argymhellir yn dilyn yr arolygiad hwn

### 5.1 Meysydd o ddiffyg cydymffurfio a nodwyd mewn arolygiad blaenorol

- Rheoliad 25 (a) (b) (c): Peryglon a diogelwch. Nid oedd risgiau diangen i iechyd a diogelwch y plant wedi cael eu nodi na'u dileu i'r graddau y mae hynny'n bosibl. Cyflwynwyd hysbysiad o ddiffyg cydymffurfio gyda'r adroddiad mewn perthynas â hyn. Mae'r gwasanaeth bellach yn cydymffurfio â'r rheoliad hwn.

- Rheoliad 22 (a) (d) (dd): Trefniadau ar gyfer amddiffyn plant. Er bod polisi ar gael, nid oedd yn cyd-fynd yn llwyr â Gweithdrefn Amddiffyn Plant Cymru Gyfan. Roedd y staff wedi dangos diffyg dealltwriaeth o'r gweithdrefnau cywir yn ystod yr arolygiad ac nid oeddent yn dilyn y polisi. Nid oedd y staff na'r person cofrestredig wedi cael hyfforddiant amddiffyn plant yn ystod y tair blynedd diwethaf. Cyflwynwyd hysbysiad o ddiffyg cydymffurfio gyda'r adroddiad mewn perthynas â hyn. Mae'r arweinwyr wedi gosod mesurau ar waith ond nid ydynt yn cydymffurfio'n llwyr ar hyn o bryd.

- Rheoliad 28(1): Addasrwydd staff. Nid oedd y darparwr wedi cyflawni'r holl wiriadau addasrwydd gofynnol mewn perthynas ag aelodau o staff newydd. Nid yw'r darparwr yn cydymffurfio oherwydd roedd aelod o staff a benodwyd yn ddiweddar wedi dechrau gweithio cyn i'r holl wiriadau addasrwydd gael eu rhoi ar waith. Hefyd, nid oedd y person cofrestredig wedi sicrhau bod gan aelod o staff a oedd yn bresennol yn ystod yr arolygiad dystysgrif ddilys gan y Gwasanaeth Datgelu a Gwahardd. Cyflwynwyd hysbysiad o ddiffyg cydymffurfio gyda'r adroddiad mewn perthynas â hyn. Mae'r gwasanaeth bellach yn cydymffurfio â'r rheoliad hwn.

- Rheoliad 29 (3) (a): Cyflogi Staff. Nid oedd y staff wedi cael sesiynau arfarnu na goruchwylio. Roedd y ddogfen ddiwethaf a welwyd yn y ffeiliau yn ystod yr arolygiad yn dyddio'n ôl i 2005. Dywedodd aelod o staff nad oedd wedi cael unrhyw sesiynau arfarnu/goruchwylio yn ddiweddar. Cyflwynwyd hysbysiad o ddiffyg cydymffurfio gyda'r adroddiad mewn perthynas â hyn. Mae'r gwasanaeth bellach yn cydymffurfio â'r rheoliad hwn.

- Cyflwynwyd hysbysiadau diffyg cydymffurfio mewn perthynas â darparu gwybodaeth (**rheoliad 31**); cynnal driliau ac ymarferion tân ar gyfnodau priodol (**rheoliad 38**); cadw cofnodion (**rheoliad 30**); y datganiad o ddiben (**rheoliad 15**) a'r adroddiad a'r adolygiad o ansawdd y gofal (**rheoliad 16**). Nid yw'r gwasanaeth yn cydymffurfio â'r datganiad o ddiben ac ansawdd y gofal, felly mae'r hysbysiadau diffyg cydymffurfio mewn perthynas â'r rhain yn dal i fodoli.

### 5.2 Argymhellion ar gyfer gwella

Gwnaethom argymell fod yr arweinwyr yn gwneud y canlynol:

- Trefnu gweithgareddau yn unol â'r Cynod Sylfaen;
- datblygu'r broses oruchwylio ymhellach;
- datblygu'r ddarpariaeth o hyfforddiant diogelu plant ymhellach a
- sicrhau bod ymarferion tân yn cael eu cynnal yn rheolaidd.

## 6. Sut y gwnaethom gynnal yr arolygiad hwn

Roedd hwn yn arolygiad dirybudd â phwyslais penodol a gynhaliwyd i gadarnhau achosion o ddiffyg cydymffurfio. Cynhaliodd un arolygydd yr arolygiad ar 27 Tachwedd 2018. Rhoddwyd adborth i'r person cofrestredig ar 4 Rhagfyr 2018.

Yn ystod yr ymweliad, gwnaethom gyflawni'r canlynol;

- siarad â'r plant, y staff a'r rhieni;
- arsylwi ar y plant a'r gofal a roddwyd iddynt;
- archwilio'r safle; ac
- edrych ar amrywiaeth eang o gofnodion gan gynnwys y datganiad o ddiben, ffeiliau'r staff, a sampl o gofnodion y plant.

Ceir gwybodaeth bellach am yr hyn rydym yn ei wneud ar ein gwefan: www.arolygiaethgofal.cymru

## Ynglŷn â'r gwasanaeth

| | |
|---|---|
| **Y math o ofal a ddarperir** | **Gofal Dydd Plant**<br>**Gofal Dydd Sesiynol** |
| **Person Cofrestredig** | **Ann Price** |
| **Person â chyfrifoldeb** | **Stacey Harris**<br>**Heather Best** |
| **Uchafswm y lleoedd a gofrestrwyd** | **12** |
| **Ystod oedran y plant** | **2-4 oed** |
| **Oriau agor** | **11:50-15:10 o ddydd Llun i ddydd Gwener, yn ystod y tymor yn unig** |
| **Iaith weithredol y gwasanaeth** | **Dwyieithog** |
| **Dyddiad arolygiad blaenorol Arolygiaeth Gofal Cymru** | **28 Mehefin 2018** |
| **Dyddiad yr ymweliad arolygu hwn** | **27 Tachwedd 2018** |
| **A yw hwn yn wasanaeth Dechrau'n Deg?** | **Nac ydy** |
| **A yw'r gwasanaeth yn darparu addysg blynyddoedd cynnar ar gyfer plant tair a phedair oed?** | **Nac ydy** |
| **A yw'r gwasanaeth hwn yn darparu'r cynnig rhagweithiol ar gyfer y Gymraeg?** | **Nod y gwasanaeth hwn yw gweithio tuag at ddarparu'r 'Cynnig Rhagweithiol' ac mae'n bwriadu dod yn wasanaeth dwyieithog neu mae'n gwneud cryn ymdrech i hyrwyddo defnydd o'r Gymraeg a diwylliant Cymraeg** |
| **Gwybodaeth Ychwanegol:** | |